Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn a Baw Cŵn) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2023

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("Y Cyngor") trwy weithredu ei bwerau dan Adran 59, 63 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Y Ddeddf") a than yr holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig llunio'r gorchymyn canlynol a elwir yn:

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn a Baw Cŵn) 2023 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r mannau cyhoeddus a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir gydag ymyl coch ar y cynllun ynghlwm - ("yr ardaloedd cyfyngedig").

2. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y ddau amod isod wedi'u bodloni, sef bod:

(i) gweithgareddau a gynhelir yn yr ardal gyfyngedig fel y disgrifir isod wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal leol, neu ei fod yn debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn y man cyhoeddus a bydd ganddynt y fath rym;

(ii) yr effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau, neu'n debygol o fod, o natur gyson neu barhaus, yn, neu'n debygol o fod yn gwneud y gweithgareddau'n afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan Gorchymyn

3. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Hydref 2023 ac yn dod i ben ar 30 Medi 2026, oni ceir estyniad drwy Orchmynion pellach dan bwerau statudol y Cyngor.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

4. Effaith y gorchymyn yw gosod y gwaharddiadau a/neu'r gofynion canlynol yn yr ardaloedd cyfyngedig bob amser:

(i) Gwahardd Cŵn

a) Mae person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn cael ei wahardd rhag mynd â'r ci, neu adael i'r ci fynd neu aros ar dir o fewn yr ardaloedd cyfyngedig y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn oni bai

a) bod gan y person hwnnw reswm da dros wneud hynny; neu

b) bod perchennog, meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am reoli'r tir wedi rhoi caniatâd (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw wneud hynny; neu

c) bod yr eithriadau a restrir yn **Atodlen 1** yn berthnasol.

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar bob adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno.

(ii) Cŵn ar Dennyn trwy Gyfarwyddyd

a) Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi, ar unrhyw adeg, roi'r ci ar dennyn pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny yn yr ardaloedd cyfyngedig y manylir arnynt yn **Atodlen 2**, oni bai

a) bod gan y person hwnnw reswm da dros beidio â gwneud hynny; neu

b) bod perchennog, meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am reoli'r tir wedi rhoi caniatâd (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw beidio â gwneud hynny; neu

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar bob adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno;

(ii) Dan yr erthygl hon, gall swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod orchymyn unigolyn i roi neu gadw ci ar dennyn os yw hynny'n rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad sy'n debygol o achosi annifyrrwch neu aflonyddwch i unrhyw berson arall neu boeni neu darfu ar unrhyw anifail neu aderyn arall ar unrhyw dir y mae'r erthygl hon yn berthnasol iddo.

(Iii) Yn yr erthygl hon ystyr "swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod" yw person sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod i roi cyfarwyddiadau dan yr erthygl hon.

(Iii) Cŵn ar dennyn o amgylch canolfannau ymwelwyr a meysydd parcio parciau

a) Mae’n rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi, ar unrhyw adeg, roi’r ci ar dennyn pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny yn yr ardaloedd cyfyngedig y manylir arnynt yn **Atodlen 3**, oni bai

a) bod gan y person hwnnw reswm da dros beidio â gwneud hynny; neu

b) bod perchennog, meddiannydd neu’r person sy’n gyfrifol am reoli’r tir wedi rhoi caniatâd (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw beidio â gwneud hynny;

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar bob adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno.

(Iv) Cŵn ar dennyn ar Ffyrdd Cyhoeddus a Phalmentydd (ac eithrio hawliau tramwy cyhoeddus)

a) Mae’n rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi, ar unrhyw adeg, roi a chadw’r ci ar dennyn yn yr ardaloedd cyfyngedig y manylir arnynt yn **Atodlen 4**, oni bai

a) bod gan y person hwnnw reswm da dros beidio â gwneud hynny; neu

b) bod perchennog, meddiannydd neu’r person sy’n gyfrifol am reoli’r tir wedi rhoi caniatâd (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw beidio â gwneud hynny;

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar bob adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno.

(v) Baeddu tir gan gŵn

a) Os bydd ci yn baeddu ar unrhyw adeg ar dir mewn ardal gyfyngedig, fel y nodir yn **Atodlen 5** y

a) bod gan y person hwnnw reswm da dros beidio â gwneud hynny; neu

b) bod perchennog/ meddiannydd neu’r person sy’n gyfrifol am reoli’r tir wedi rhoi caniatâd (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw beidio â gwneud hynny; neu

(iii) bod yr eithriadau a restrir yn **Atodlen 5** yn berthnasol.

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar bob adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno;

(ii) Bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd ar y tir a ddarperir ar gyfer y diben, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn ddigonol ar gyfer ei symud oddi ar y tir;

(iii) Ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd nad oeddech yn y cyffiniau ai peidio), neu ddim â theclyn neu ddull arall addas o gael gwared ar y baw ci yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci.

(vi) Cario cynhwysydd neu fag amhriodol

a) Os bydd ci yn baeddu ar unrhyw adeg ar dir mewn ardal gyfyngedig, fel y nodir yn **Atodlen 6** y a) bod gan y person hwnnw reswm da dros beidio â gwneud hynny; neu

b) bod perchennog/ meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am reoli'r tir wedi rhoi caniatâd (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw beidio â gwneud hynny; neu

(iii) bod yr eithriadau a restrir yn **Atodlen 6** yn berthnasol.

b) At ddibenion yr erthygl hon:

(i) Ystyrir y bydd person sydd â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar bob adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar yr adeg honno;

(ii) Mae "cynhwysydd derbyniol" yn golygu unrhyw fag neu gynhwysydd sydd wedi'i ddylunio i'r diben o ddal baw cŵn er mwyn cael gwared arno.

5. COSB

i). Bydd unrhyw berson sy'n methu cydymffurfio ag unrhyw un o ofynion neu waharddiadau Erthyglau 4 (i), (ii), (iii), (iv), (v) a (vi) y Gorchymyn hwn, heb esgus rhesymol, yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 (sydd ar hyn o bryd £1000) ar y raddfa safonol.

6. Cosb Benodedig

Gall cwnstabl neu unigolyn awdurdodedig gyflwyno rhybudd cosb benodedig i unrhyw un y mae ef neu y mae hi yn credu eu bod wedi cyflawni trosedd. Bydd gan yr unigolyn sy'n cyflawni'r drosedd 14 diwrnod i dalu'r gosb benodedig o £100 (neu £75 os

7. Apeliadau

Rhaid cyflwyno unrhyw her i'r Gorchymyn yn yr Uchel Lys gan unigolyn â diddordeb o fewn 6 wythnos ar ôl iddo gael ei lunio. Unigolyn â buddiant yw rhywun sy'n byw yn yr ardal gyfyngedig, yn gweithio yn yr ardal gyfyngedig neu'n ymweld â'r ardal gyfyngedig yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r hawl i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan gaiff gorchymyn ei amrywio gan y Cyngor.

Gall unigolion â diddordeb herio dilysrwydd y Gorchymyn ar ddwy sail: nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn, neu i gynnwys gwaharddiadau penodol neu ofynion: neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, er enghraifft ymgynghori.

Pan wneir cais, gall yr Uchel Lys benderfynu gwahardd gweithrediad y Gorchymyn wrth aros am benderfyniad y Llys, yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gynnal y Gorchymyn, ei ddiddymu neu ei ddiwygio.

Dyddiedig y.... . /.~... diwrnod hwn o ..... J .. ~~····· 2023

SEL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM Wedi'i osod at hyn ym mhresenoldeb:-

.....

Prif Swyddog Llywodraethu a Gwasanaethau Cwsmeriaid

ARDALOEDD CYFYNGEDIG

<u>ATODLEN 1</u>

1) Pob man cyhoeddus o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ei gyfanrwydd mewn perthynas â:

(i) mannau chwarae plant caeedig, parciau sglefrio, cyrtiau tennis ac ardaloedd gemau amlddefnydd.

(Ii) Ardaloedd chwarae caeau chwarae wedi'u marcio

(iii) Arwynebau chwarae lawntiau Bowlio

Mae "man cyhoeddus" yn y Gorchymyn hwn yn golygu, unrhyw leoliad y mae gan y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd fynediad iddo, wrth dalu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

<u>2) Eithriadau</u>

Nid yw'r Atodlen hon yn berthnasol i'r unigolion canlynol:-

(a) Unigolyn wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) Unigolyn byddar, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig 293358) ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth (mae'n rhaid i gŵn fod wedi'u marcio fel cŵn cymorth); neu

(c) Unigolion ag anabledd sy'n effeithio ar eu symudedd, eu deheurwydd llaw, cydsymud corfforol neu eu gallu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth (mae'n rhaid i gŵn fod wedi'u marcio fel cŵn cymorth).

3) Mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd":-

(i) Dogs for the Disabled (rhif elusen cofrestredig 700454);

(ii) Support Dogs Limited (rhif elusen gofrestredig 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (rhif elusen gofrestredig 803680)

ATODLEN 2

1) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

"man cyhoeddus" yn y Gorchymyn hwn yn golygu, unrhyw leoliad y mae gan y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd fynediad iddo, wrth dalu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

2) Eithriadau

Dim.

ATODLEN 3

1) Pob canolfan ymwelwyr a meysydd parcio ac mewn parciau a lawntiau bowlio ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam,

a nodir isod:

Parc Gwledig Dyfroedd Alun Gwersyllt a Llai.

Parc Gwledig Tŷ Mawr, Cefn Mawr

Y Parciau

Canolfan Ymwelwyr Melin y Nant, Coedpoeth

Pob Lawnt Bowlio sydd ar agor i'r cyhoedd

2) Eithriadau

Dim.

ATODLEN 4

1) Pob Ffordd Gyhoeddus a Phalmant ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam (ac eithrio hawliau tramwy cyhoeddus)

2) Eithriadau

Dim.

Yn y Gorchymyn hwn, y diffiniad o "ffordd" yw pob priffordd gyhoeddus sydd â hawl tramwy ar gyfer cerbydau modur (sy'n cynnwys ardaloedd o balmant, llwybr troed a llain ymyl a neilltuwyd ar gyfer cerddwyr o fewn priffordd o'r fath), gyda cherbydau modur yn cael ei ddiffinio yn adran 185 (1) Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ac adran 136(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel "cerbyd a yrrir yn fecanyddol", a fwriedir neu a addaswyd i'w ddefnyddio ar ffyrdd.

ATODLEN 5

1) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

mae "man cyhoeddus" yn y Gorchymyn hwn yn golygu, unrhyw leoliad y mae gan y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd fynediad iddo, wrth dalu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

2) Eithriadau

Nid yw'r Atodlen hon yn berthnasol i'r unigolion canlynol:-

(a) Unigolyn wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) Unigolyn ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddeheurwydd llaw, cydsymud corfforol neu ei allu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig y mae'r unigolyn hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

3) Mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd":-

(i) Dogs for the Disabled (rhif elusen cofrestredig 700454);

(ii) Support Dogs Limited (rhif elusen gofrestredig 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (rhif elusen gofrestredig 803680)

ATODLEN 6

1) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

mae “man cyhoeddus” yn y Gorchymyn hwn yn golygu, unrhyw leoliad y mae gan y cyhoedd neu ran o’r cyhoedd fynediad iddo, wrth dalu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

2) Eithriadau

Dim.